



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad Blynyddol 2022-23

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
Intec
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FG

01248 371839

swyddfa@cyfieithwyr.cymru

www.cyfieithwyr.cymru



@cyfieithwyr

Cofrestrwyd yng Nghymru: 4741023

Cynnwys

Cynnwys	1
Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru	2
Gair gan Gadeirydd y Gymdeithas	3
Gair gan y Prif Swyddog	4
Llywodraethiant a rheolaeth	5
Yr adroddiad ar weithgareddau 2022–23	6
1. Rhagair	6
2. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: aelodaeth y Gymdeithas	7
3. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi	9
4. Hybu datblygu proffesiynol	11
5. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol	13
6. Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol	15



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n arwain, datblygu a hyrwyddo cyfieithu proffesiynol. Hi yw'r unig gymdeithas broffesiynol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun ynteu'n gyfieithwyr ar y pryd, ac mae'n ganolog wrth greu cymuned o gyfieithwyr proffesiynol ledled Cymru.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun, ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd (CAP).

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg i/o'r Saesneg: mae aelodau'r Gymdeithas yn gweithio mewn swyddi yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn y sector preifat, ac ar eu liwt eu hunain.

Ers ei sefydlu yn 1976 mae'r Gymdeithas wedi:

- cynnal, datblygu a hyrwyddo'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg trwy osod y safonau cyfieithu proffesiynol hynny, a gwella, cynyddu a datblygu sgiliau a gwybodaeth cyfieithwyr.
- sicrhau bod y proffesiwn/diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a'i fod yn gallu ymateb yn rhagweithiol i anghenion y Gymru ddwyieithog sydd ohoni.

Wrth fynd ati i gyflawni hyn, bwriad y Gymdeithas yw cynrychioli'r rhan fwyaf o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg i/o'r Saesneg, lleihau'r achosion lle gall unrhyw un ei (g)alw ei hun yn gyfieithydd, a gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y rhai sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau cyfieithu a rhoi'r sicrwydd iddynt y gallant ddisgwyl gwaith o safon.

Trwy roi grant blynyddol i'r Gymdeithas ers 1997 – drwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn wreiddiol, yna drwy law Comisiynydd y Gymraeg (2012–16) ac yna'n uniongyrchol ers 2016 – mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros £1.9 miliwn yng ngwaith y Gymdeithas i ddatblygu, hyrwyddo a chryfhau'r diwydiant/proffesiwn cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg: 'cefnogaeth barhaus', fel y nodir yn strategaeth Cymraeg 2050, sy'n allweddol wrth iddi gyflawni ei swyddogaeth a'i chenhadaeth.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2022–23.



Gair gan Gadeirydd y Gymdeithas, Manon Cadwaladr

Mae hi'n fraint cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru 2022–23 ar ran fy nghyd-Gyfarwyddwyr.

Roedd 2022–23 yn flwyddyn o gryn newid i'r Gymdeithas. Dyma flwyddyn ymddeoliad Geraint Wyn Parry o swydd y Prif Weithredwr yn dilyn dros bymtheg mlynedd o wasanaeth i'r Gymdeithas. Roedd hi'n ddiwedd cyfnod i dri o'n Gyfarwyddwyr hefyd a bu inni ffarfelio â Steffan Gealy, Mary Jones a Huw Tegid Roberts. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddynt am eu gwasanaeth diwyd a gofalus i'r Gymdeithas dros y blynyddoedd. Roedden ni'n falch iawn o allu croesawu dau aelod newydd i Fwrdd y Gyfarwyddwyr sef Arwel Wynn Owen a Stephen V. Thomas. Mae'r ddau yn aelodau gwerthfawr i'r Bwrdd ac rwy'n ddiolchgar tu hwnt iddyn nhw ac i'r holl Gyfarwyddwyr am eu harweiniad a'u cyngor ac am gydweithio hapus.

Ac yng nghanol y cyfnod hwn o newid fe ddechreuais innau ar fy rôl yn Gadeirydd y Gymdeithas. Dros y flwyddyn rydw i wedi rhyfeddu at hyd a lled y gwaith mae'r Gymdeithas yn ei gyflawni. Mae hyn yn amrywio o ddarparu hyfforddiant a chynghor, rhannu gwybodaeth ag aelodau, ymgyrchu a llobio dros gyfieithwyr a'r Gymraeg heb sôn am yr arholiadau, cynnig gwobrau ac ysgoloriaeth. Rydw i, fel yr holl aelodau dwi'n siŵr, yn arbennig o ddiolchgar i Geraint a Nia am eu gwaith yn cyflawni hyn oll. Rhaid estyn diolch arbennig i Nia am fwrw ymlaen â'r gwaith ar ei phen ei hun am dri mis olaf y cyfnod dan sylw hefyd. Mae hi wedi bod yn brysur yn cydlynu gwaith pawb sy'n rhan o bob agwedd ar waith y Gymdeithas – yn arholwyr, yn farcwyr, yn diwtoriaid, yn oruchwylwyr arholiadau a llu o swyddogaethau eraill, ac mae fy niolch yn fawr iddynt hwythau hefyd.

Roedden ni falch iawn o allu cynnal diwrnod llwyddiannus i'r aelodau ym Mhlas Tan y Bwlch yn ystod y flwyddyn. Roedd hi'n braf cael cwrdd wyneb yn wyneb unwaith eto a chael gwrandao ar siaradwyr difyr dros ben. Byddwn yn cynnal y diwrnod nesaf i'r aelodau yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Fe wnaethon ni dreialu sesiynau 'sgwrs amser cinio' dros Teams yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain wedi bod yn sesiynau bach poblogaidd a diddorol iawn ac rydyn ni wedi gallu mwynhau cyflwyniadau ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i gyfieithwyr. Rydyn ni hefyd wedi bod mewn ffeiriau gyrfaoedd ac yn siarad mewn prifysgolion i geisio annog rhagor i ymuno â'r proffesiwn cyfieithu.

Ymdrech arall gennym yn ystod y flwyddyn i ddenu rhagor i'r proffesiwn oedd cynnig yr arholiadau yn Ebrill 2023 am hanner pris. Roedd hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran ennyn cyhoeddusrwydd i'r Gymdeithas a'n gwaith ni fel cyfieithwyr.

Roedd llawer o'n gwaith ni yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar benodi Prif Swyddog newydd. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am y cymorth i'n helpu i gyflawni hyn.

Rydw i'n hynod falch ein bod wedi gallu penodi Gwyn Williams yn Brif Swyddog i'r Gymdeithas ym mis Mehefin 2023. Mae Gwyn wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu gyda S4C a Chomisiynydd y Gymraeg. Rydw i'n gwbl fyddiog y bydd y Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth yn nwylo diogel Gwyn. Bydd digon o gyfleoedd i chi fel aelodau gael cwrdd â Gwyn dros y misoedd nesaf i roi eich barn am sut hoffech chi weld eich Cymdeithas chi yn datblygu dros y flwyddyn i ddod.



Gair gan y Prif Swyddog, Gwyn Williams

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i bawb, yn aelodau, yn Fwrdd y Cyfarwyddwr ac yn arbennig i Nia, am eich croeso wrth i mi ddechrau ar y swydd yma ganol Mehefin 2023. Mae'n briodol i mi hefyd dalu teyrnged i Geraint am y gwaith sylweddol wnaeth o gyflawni dros ei flynyddoedd yn y swydd.

Mae'n amlwg i chi felly, gan fod yr adroddiad yn trafod y flwyddyn aeth heibio gan ddiwedd 31 Mawrth 2023, does dim llawer y gallai gynnig o ran naratif hanesyddol. Serch hynny mae'n amlwg fod Nia a Bwrdd y Cyfarwyddwr wedi gweithio'n galed iawn dros y chwe mis ers i Geraint orffen. Yn hynny o beth rwy'n siŵr mod i'n siarad ar ran yr aelodau i gyd drwy ddiolch i bawb fu'n ysgwyddo'r baich ychwanegol.

Mae dau beth yn ganolog i fy ngweledigaeth ar gyfer y swydd hon – y ddau brif beth soniais amdanynt yn fy nghyfweliad. Yn gyntaf, rôl ganolog y Gymdeithas wrth i ni gydweithio tuag at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd o'r iaith erbyn 2050. Wrth i fwy a mwy o bobl siarad Cymraeg, rhaid sicrhau nad yw'r rhai sydd ddim eto'n gwbl rugl, neu'r rhai sydd ddim yn deall yr iaith o gwbl, yn teimlo allan ohoni neu wedi eu hynysu. Felly mae cyfieithu graenus a hawdd ei gyrraedd ato'n allweddol. Yn hynny o beth mae rôl y Gymdeithas mewn sicrhau safon a hyrwyddo argaeledd cyfieithu yn ganolog.

Yn ail mae'r Gymdeithas yn eiddo i ac yn gweithredu ar ran ei haelodau. Nawr gydag aelodau sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus, y sector breifat, y trydedd sector ac yn gweithio ar liwt eu hunain, bydd adegau pan nad yw anghenion, gweledigaeth a buddiannau'r holl aelodau yn cyd-daro. Dyna pam mae'n bwysig cael Bwrdd o Gyfarwyddwyr sy'n adlewyrchu'r aelodaeth. Os nad ydych chi'n teimlo fod y Gymdeithas yn adlewyrchu eich safbwynt chi: yn gyntaf rhowch wybod, ac yn ail ystyriwch sefyll ar gyfer y Bwrdd. Mae angen clywed yr amrywiaeth o leisiau, o safbwyntiau ac o brofiadau er mwyn gwneud yn siŵr fod y Gymdeithas yn gwneud y gorau i bawb.

Fel un sy'n newydd i'r byd yma, plŷs maddeuwch i mi os dwi'n camddehongli neu gamddeall pethau yn fy misoedd cyntaf. Dwi'n addo byddai'n gwella – ond hapus iawn i dderbyn adborth yn y cyfamser! Rwyf wedi cael cyfle i gwrdd â rhai ohonoch eisoes, a gobeithio caf gyfle i gwrdd â mwy yn y Diwrnod i'r Aelodau mis Hydref. Ond os oes rhywun isio sgwrs cyn hynny, plŷs rhowch wybod a gallaf drefnu galw heibio, croeso i chi ddod draw i Barc Menai neu fe allwn drefnu rhywbeth dros ffôn, Zoom neu Teams – beth bynnag sy'n siwtio.



Llywodraethiant a rheolaeth

Rheoli'r Gymdeithas

Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru Cyf. yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Fe'i hymgorfforwyd yn 2003. Rhif cofrestredig y cwmni yw 4741023. Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdedig yw Intec, Parc Menai, Bangor, LL57 4FG. Nia Wyn Jones, Rheolwr Systemau'r Gymdeithas yw Ysgrifennydd y Cwmni.

Rheolir y Gymdeithas gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr a etholir o blith holl aelodau'r Gymdeithas. Gwasanaethodd y canlynol yn ystod 2022–23: David Bullock, Bethan M. Evans, Fiona Gannon, Steffan Gealy, Hywel G. Hughes, Catherine Jones, Mary Jones, Arwel Wynn Owen, Hywel Pennar, Ifan Prys, Huw Tegid Roberts, Stephen V Thomas.

Cyfarfu Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 14 Gorffennaf 2022 (rhithwir), 10 Tachwedd 2022 (Caerdydd), 13 Chwefror 2023 (rhithwir) a 20 Mawrth 2023 (rhithwir).

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar 15 Medi 2022 yn rhithwir. Roedd 13 o aelodau'n bresennol. Cyflwynwyd a derbyniwyd yr Adroddiad Blynyddol a chyfrifon 2021–22, yn ogystal â chadarnhau ethol Cyfarwyddwyr. Mae gan y Gymdeithas bedwar Bwrdd/Pwyllgor arall.

Mae dau ohonynt yn gysylltiedig â'r drefn arholi, sef y Bwrdd Arholi Testunau (y mae iddo dri aelod craidd, sef y Prif Arholwr Testun a'r ddau ddirprwy, ynghyd â marcwyr y rownd honno o arholiadau); a'r Bwrdd Cyfieithu ar y Pryd (y mae iddo ddau aelod craidd, sef y Prif Arholwr CAP a'r Dirprwy Arholwr CAP ynghyd ag aseswyr y Prawf CAP hwnnw). Fiona Gannon yw'r Prif Arholwr Testun a Nerys Hurford yw'r Prif Arholwr CAP.

Y ddau bwyllgor arall yw'r Pwyllgor Materion CAP a'r Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol.

Y sefyllfa ariannol

Cafwyd grant o £52,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at y swyddi a chostau swyddfa. Amod o'r grant oedd yr angen i gyflawni targedau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Roedd y llythyr yn cynnig y grant yn nodi mai ei ddiben 'yw'ch galluogi i barhau i gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol, gan ddatblygu'ch gweithgareddau [...] sy'n ymwneud yn benodol â'r drefn asesu, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, a sicrhau safonau proffesiynol'. Nododd y llythyr hefyd fod gwaith y Gymdeithas yn 'cyfrannu at nifer o'r camau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned'.

Y brif ffynhonnell arall o incwm i'r Gymdeithas oedd y taliadau aelodaeth, sef £49,439. Dengys y cyfrifon fod gan y Gymdeithas gronfa o £183,818 ar ddiwedd y flwyddyn.

Paratowyd yr Adroddiad Ariannol (heb archwiliad) gan Emyr Mortimer Cyf, Caernarfon, yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau bychain.



Yr adroddiad ar weithgareddau 2022–23

1. Rhagair

Mae'r adroddiad ar weithgareddau 2022–23 ar y tudalennau nesaf wedi ei baratoi i adlewyrchu amcanion Cynllun Strategol y Gymdeithas. Bydd yr adrannau sy'n dilyn yn adrodd ar gyflawni pedwar amcan strategol y Gymdeithas:

- cynnal a chynyddu'r aelodaeth;
- hybu datblygu proffesiynol;
- cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol;
- codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol.

Mae'r Cynllun Strategol yn hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas trwy adeiladu ar seiliau cadarn y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n caniatáu i'r Gymdeithas barhau ei chenhadaeth o ddatblygu'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg ymhellach, ynghyd â'i swyddogaeth bwysig fel lladmerydd yn eiriol dros fuddiannau ei haelodau.

Roedd yr egwyddor graidd hon wrth wraidd y rhaglen waith a osodwyd ar gyfer 2022- 23 a thargedau grant Llywodraeth Cymru. Bwriad y Gymdeithas ar gyfer y flwyddyn oedd:

- cynyddu nifer y cyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg y mae'n eu cynrychioli;
- cynnal arholiadau aelodaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd;
- hybu datblygiad proffesiynol cyfieithwyr trwy drefnu rhaglen amrywiol o weithdai, ac annog a hyrwyddo datblygu proffesiynol parhaus;
- cynnal perthynas â sefydliadau Addysg Uwch, yn enwedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r cyrsiau academiaidd yn y maes;
- cynnal a meithrin ei chysylltiadau â chyrrff a sefydliadau eraill y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu;
- hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol y Gymdeithas, codi proffil cyfieithu proffesiynol a marchnata'i haelodau.

Wrth ddarllen yr adroddiad hwn fe'ch cynghorir i ymweld â gwefan y Gymdeithas – <https://www.cyfieithwyr.cymru/cy/> – lle cewch wybod rhagor am y Gymdeithas a'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Cafodd y Gymdeithas ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2022–23.



2. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: aelodaeth y Gymdeithas

Amcan strategol 1 yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Sylwer, mae'r bennod hon yn ymwneud â materion aelodaeth y Gymdeithas yn unig. Mae'r bennod nesaf yn ymdrin â'r drefn arholi.

Dim ond drwy lwyddo yn Arholiadau Aelodaeth Testun neu ym Mhrawf CAP y Gymdeithas y gellir dod yn aelod. Mae dwy lefel aelodaeth i gyfieithwyr testun, Cyflawn a Sylfaenol. Un lefel aelodaeth sydd i gyfieithwyr ar y pryd, a honno naill ai i'r Saesneg neu i'r Gymraeg. Dim ond unigolion all fod yn aelodau o'r Gymdeithas.

2.1 Aelodaeth y Gymdeithas

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gan y Gymdeithas 397 o aelodau, fel a ganlyn:

Aelodau Cyflawn: 198 (2021/22: 207)

Aelodau Sylfaenol: 182 (2021/22: 178)

Aelodau CAP: 78 * (2021/22: 81)

* O'r 78 Aelod CAP, mae 17 yn Aelodau CAP yn unig. Mae'r lleill naill ai'n Aelodau Cyflawn (47) ynteu'n Aelodau Sylfaenol (14). Mae pob un yn Aelod CAP i'r Saesneg, a 18 yn Aelodau CAP i'r Gymraeg.

Cafwyd 17 aelod newydd. (2021/22: 1)

Mae'r Gymdeithas yn cynrychioli pob agwedd ar gyfieithu proffesiynol Cymraeg i/o'r Saesneg. Roedd 42% (2021/22: 39%) o'r aelodau hyn yn gweithio yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. O'r aelodau oedd yn gweithio yn y sector preifat, roedd 39% (2021/22: 42%) ar eu liwt eu hunain a 19% (2021/22: 19%) yn gweithio i gwmnïau cyfieithu.

Mae blwyddyn aelodaeth y Gymdeithas yn dechrau ar 1 Ebrill. Mae gennym drefn deg a chadarn wrth weinyddu'r ymgyrch ailymaelodi flynyddol yn ystod Ebrill a Mai. O ganlyniad, o 1 Mehefin dim ond aelodau sydd wedi talu tâl aelodaeth y flwyddyn sydd ar y rhestr o aelodau'r Gymdeithas, a dim ond y rhain sy'n ymddangos ar y wefan yn y gwasanaeth i ddod o hyd i gyfieithydd ac yn y rhestr A-Z (oni bai eu bod wedi gofyn i'w manylion beidio ag ymddangos).

Gweithredwyd yr ymgyrch ailymaelodi flynyddol yn Ebrill a Mai fel arfer. Yn yr ymgyrch hon targedwyd aelodau 2021-22, yn ogystal â chyn-aelodau ac ymgeiswyr llwyddiannus yn yr arholiadau nad oeddynt wedi ymaelodi yn dilyn eu llwyddiant ac a oedd yn gymwys i fod yn aelodau o dan y rheol sydd gan y Gymdeithas ar gyfer aelodaeth.

Hon oedd y drydedd flwyddyn yn olynol i'r Gymdeithas gynnig gostyngiad yn y tâl aelodaeth. Er nad oedd y gostyngiad yn gymaint y tro hwn, fe'i gwnaed oherwydd parhad cysgod Covid-19 yn ogystal â'r cynnydd mewn costau byw o wahanol gyfeiriadau. Oherwydd yr amgylchiadau, penderfynwyd rhoi 15% o ostyngiad yn y tâl aelodaeth yn 2022-23, sef £127.50 yn hytrach na £150.00; ac i Aelodau Sylfaenol yn nhair blynedd gyntaf eu haelodaeth, £119.00 yn hytrach na £140.00.

Cafodd pob aelod Dystysgrif Aelodaeth pan oedd wedi talu ei dâl aelodaeth.

Cafodd pob aelod gopi o'r Llawlyfr Aelodaeth. Y bwriad oedd y byddai'n ateb y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r cwestiynau a allai godi ynghylch aelodaeth o'r Gymdeithas.

Cafodd Aelodau Cyflawn ac Aelodau CAP, a'r Cwmnïau Cydnabyddedig ddefnyddio'r logos arbennig a ddyluniwyd ar eu cyfer.

Cynigiwyd nifer o fuddion a gwasanaethau i'r aelodau.



Mae gan bob aelod ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, sy'n cynnwys Proffil. Fe'u hanogir hwy i sicrhau fod y wybodaeth yn y Cofnod Aelodaeth yn gywir ac yn gyfredol ac i ddefnyddio'r adnodd gwerthfawr hwn i'r eithaf.

Dosbarthwyd gwybodaeth berthnasol a defnyddiol yn y Bwletin Newyddion rheolaidd. Ymhlith y buddion eraill roedd gwybodaeth am waith a swyddi cyfieithu a gostyngiadau ar gyfer gweithdai ac arholiadau.

2.2 Ymddygiad proffesiynol

Wrth dalu eu tâl aelodaeth roedd holl aelodau'r Gymdeithas yn gwybod bod disgwyl iddynt ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol. Ynglwm wrth y Cod mae gan y Gymdeithas drefn gwyno. Braff dweud na chafwyd yr un gŵyn yn erbyn aelod o'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynnig Gwasanaeth Asesu Ansawdd Cyfieithiad, gwasanaeth y codir ffi amdano.

2.3 Cyfieithwyr ar y pryd Llysoedd a Thriwlynlysoedd

Oherwydd pwysigrwydd strategol y maes hwn i'r Gymraeg yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd parhawyd i gydnabod y 23 Aelod CAP oedd yn perthyn i'r garfan hon. Roedd disgwyl mai dim ond yr aelodau CAP hyn fyddai'n cael eu galw i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn gwrandawriadau yn y llysoedd a'r triwlynlysoedd.

2.4 Cydnabyddiaeth i eraill*

Mae categori **Cwmni Cydnabyddedig**, yn ddull o gydnabod cwmnïau cyfieithu, ble mae o leiaf 33% o'r staff craidd yn aelodau Cyflawn a/neu'n aelodau CAP o'r Gymdeithas. Cafodd 8 cwmni eu cydnabod yn Gwmni Cydnabyddedig (Atebol, Calan, Cymen, Nico, Prysg, Testun, Trosol a Trywydd).

Er y penderfynwyd rhewi'r gydnabyddiaeth i sefydliadau cyhoeddus o 1 Ebrill 2022 roedd y rhai eisoes ar y rhestr yn parhau i gadw'r gydnabyddiaeth honno yn 2022–23.

Mae cydnabyddiaeth **Myfyriwr Cyswllt** ar gael i fyfyrwyr sydd â'u bryd ar yrfa fel cyfieithwyr, ac mae'n fodd o annog a chefnogi myfyriwyr yn yr uchelgais hon.

Mae'r categori **Aelod sydd wedi ymddeol** ar gyfer cyn-aelodau sydd am gadw cysylltiad â'r Gymdeithas wedi i'w hymwneud ffurfiol â'r Gymdeithas fel aelodau ddod i ben yn dilyn eu hymddeoliad.

*Sylwer, nid yw'r un o'r categorïau hyn yn golygu bod yn aelod o'r Gymdeithas ac felly nid oes pleidlais ynghlwm â'r aelodaeth: maent yn gydnabyddiaeth gan y Gymdeithas yn unig.



3. Cynnal a chynyddu'r aelodaeth: y drefn arholi

Amcan strategol 1 yw sicrhau y bydd y Gymdeithas yn cynrychioli mwy a mwy o gyfieithwyr, ac yn ymestyn ei dylanwad a'i heffaith trwy gynnal a datblygu safonau cyfieithu proffesiynol.

Sylwer, mae'r bennod hon yn ymdrin â threfn arholi'r Gymdeithas, sef yr Arholiadau Aelodaeth Testun a'r Prawf CAP.

3.1 Yr Arholiadau Aelodaeth Testun

Cynhaliwyd yr Arholiadau Aelodaeth Testun ar y lefelau Cyflawn a Sylfaenol ym mis Ebrill 2022 ac ym mis Hydref 2022.

	EBRILL 2022		HYDREF 2022	
Cyfanswm yr holl ymgeiswyr [1]	35		29	
Llwyddiannus	15		11	
	YMGEISWYR	LLWYDDO	YMGEISWYR	LLWYDDO
CYFLAWN				
Papur 1: i'r Gymraeg	5	1	7	3
Papur 2: i'r Saesneg	2	0	0	0
SYLFAENOL				
Papur 1: i'r Gymraeg	29	12	21	7
Papur 2: i'r Saesneg	10	5	6	2

[1] Safodd rhai ymgeiswyr y ddau bapur.

Cynhaliwyd holl gyfarfodydd y Bwrdd Arholi Testunau yn rhithwir.

Cynhaliwyd yr arholiadau yng Ngholeg Ceredigion, Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Choleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff yn y sefydliadau hyn am eu cydweithrediad a'u cymorth parod. Hoffem hefyd ddiolch i'r arholwyr, y marcwyr a'r goruchwylwyr.

Fel bob amser, braf oedd gweld nifer dda o ymgeiswyr yn sefyll yr arholiadau, a da yw cael llongyfarch pawb a fu'n llwyddiannus yn ystod rowndiau Ebrill a Hydref 2022. Pleser, fel bob amser, oedd gweld unigolion a fu wrthi'n datblygu gyrfa ym myd cyfieithu yn sefyll yr arholiad i ddangos eu doniau, ac roedd yn addawol iawn gweld cyfraddau llwyddo iach ar y lefel Sylfaenol. Roedd hynny'n awgrymu bod llawer mwy o'r ymgeiswyr bellach yn deall y safon y mae'n rhaid ei chyrraedd i lwyddo yn yr arholiadau, ac yn gallu cynhyrchu gwaith ar y lefel honno o dan amodau arholiad. Yn ogystal â'r rhai a lwyddodd, roedd cyfieithu da i'w weld yng ngwaith y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr eraill, ac nid oes fawr neb sy'n sefyll yr arholiad bellach yn cael eu trechu gan y darnau.

Ochr arall y geiniog, fodd bynnag, yw bod nifer, fel mor aml, wedi cael trafferth cynnal y safon ar hyd yr arholiad. P'un ai trafferth rheoli amser, diffyg profiad, neu anhawster gyda rhai o nodweddion penodol y darnau oedd yn gyfrifol am hynny, mae'n anodd gwybod, ond byddai'n werthfawr petai ymgeiswyr yn y sefyllfa honno yn mynd ati i ddadansoddi beth aeth o'i le a gweithio ar hynny'n benodol cyn rhoi cynnig arall arni.

Tuedd arall oedd yn destun pryder eto y tro hwn oedd y ffaith bod cynifer o'r ymgeiswyr aflwyddiannus wedi methu oherwydd eu bod heb olygu eu gwaith yn drylwyr. Mae hyn yn peri siom, yn arbennig ar y lefel Gyflawn, lle disgwylir i'r ymgeiswyr gyflwyno gwaith graenus, o'r safon uchaf, nad oes angen ei olygu ymhellach. Mae'r gallu i olygu'n fanwl yn rhan hanfodol o gyfieithu ar y lefel broffesiynol, ac wrth i gof



cyfieithu a thechnoleg cyfieithu barhau i ddatblygu, bydd y sgil honno'n dod yn fwyfwy pwysig. Gwaetha'r modd, roedd y golygu'n ddiffygiol yn achos nifer o'r darnau gwaith cartref hefyd, ac mae hynny'n awgrymu nad yw rhai ymgeiswyr wedi deall gwir ddiben y darn hwnnw, sef dangos eu gwaith gorau pan na fyddant o dan bwysau amodau arholiad. Trwy beidio â manteisio ar y cyfle i wneud hynny, collodd rhai gyfle gwerthfawr.

Cynhaliwyd diwrnod i'r rhai sydd ar y Gofrestr Marcwyr yn rhithwir ar 30 Ionawr 2023 dan arweiniad Fiona Gannon, y Prif Arholwr. Roedd sesiwn y bore ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg a'r prynhawn ar gyfieithu i'r Saesneg.

3.2 Y Prawf CAP

Cynhaliwyd Diwrnod y Prawf CAP ar 7 Chwefror 2023. Cafwyd un ymgeisydd a hynny ar gyfer y Prawf CAP i'r Saesneg. Llwyddodd yr ymgeisydd hwn.

Cynhaliwyd y Prawf CAP o bell trwy Zoom gyda CTV Sound Studios yn recordio'r gwaith. Cynhaliwyd y Bwrdd CAP yn rhithwir.



4. Hybu datblygu proffesiynol

Amcan strategol 2 yw sicrhau cyfleoedd i gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd a fydd yn eu helpu i wella, cynyddu a datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Bydd hyn yn fodd o hyrwyddo sgiliau proffesiynol a chyflogadwyedd yr aelodau.

4.1 Gweithgareddau datblygu proffesiynol a hyfforddiant

Bu rhaid lleihau'r gweithgareddau yn ystod y flwyddyn oherwydd ymddeoliad y Prif Weithredwr a'r methiant i benodi yn ei le. Serch hynny cynhaliwyd y gweithgareddau a nodir isod:

Cynhaliwyd y gweithdy 'Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg' o dan arweiniad Sylvia Prys Jones, deirgwaith ar ddechrau Gorffennaf ar gyfer cyfieithwyr a golygyddion y Senedd.

Am y tro cyntaf cynhaliwyd sesiynau o 'sgyrsiau dros ginio' i'r aelodau. Trefnwyd 4 sesiwn ar-lein, o ryw awr o hyd:

5 Ionawr 2023 – Ben Screen yn cyflwyno ei gyfrol, Sylfeini Cyfieithu Testun
26 Ionawr 2023 – Robin Hughes yn cyflwyno Memsource
16 Chwefror 2023 – Nerys Hurford ar Gyfieithu ar y Pryd o bell
30 Mawrth 2023 – Menna Wyn ar 'gyfleu'r neges wrth gyfieithu'.

Parhawyd i gynnal yr e-weithdy cyfieithu bach oherwydd bod i'r fformat hwn ei rinweddau. Ynndo, roedd y dysgwyr yn cyfieithu un darn yn unig ac yn cael wythnos i lunio'u cyfieithiad. Yna byddai'r gwaith yn cael ei farcio a'i ddychwelyd i'r dysgwr gyda sylwadau. Cynigiwyd yr e-weithdy cyfieithu bach ar y ddwy lefel (Cyflawn a Sylfaenol) ac yn y ddau gyfeiriad (i'r Gymraeg ac i'r Saesneg) yn ystod Mehefin-Gorffennaf a hefyd yn ystod mis Tachwedd. Roedd 23 ar y lefel Gyflawn a 38 ar y lefel Sylfaenol.

4.2 Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus.

'Balchder Crefft: Datblygu Proffesiynol Parhaus, ei fanteision' yw teitl cynllun Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) y Gymdeithas. Bwriad y ddogfen hon yw cynnig canllaw hwylus a fydd yn helpu ac yn annog aelodau'r Gymdeithas i ystyried pwysigrwydd DPP ac i lunio cynllun DPP personol. Bydd hefyd yn cynnig arweiniad i aelodau ynghylch pa weithgaredd DPP, a faint ohono, sydd fwyaf addas a pherthnasol i'w hanghenion a'u dyheadau. Gall pob aelod gofnodi ei weithgarwch DPP yn ei Gofnod Aelodaeth ar wefan y Gymdeithas, cofnod y gall yr aelod ei hun a staff y Gymdeithas yn unig ei weld.

4.3 Diwrnod i'r Aelodau 2022

Cynhaliwyd y Diwrnod i'r Aelodau ar 28 Hydref ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Roedd y rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau gan Stefano Ghazzali o Uned Technolegau Iaith Prifysgol Bangor; Gwenllian Carr ar y Llais; Richard Crowe ar gyfieithu testunau LHDTTC+; Mary Jones ar osgoi'r maglau; cyflwyniad i'r e-lyfrau cyfieithu newydd gan Lynwen Davies; Manon Cadwaladr yn amlinellu profiad Cymen o gyfieithu i asiantaethau a chwmnïau y tu allan i Gymru; a Guto Dafydd yn trafod geiriau gwaharddedig a chyfieithu idiomatig. Y farn gyffredinol oedd iddo fod yn ddiwrnod llwyddiannus, y cafwyd cyflwyniadau diddorol, a'i bod yn braf gallu cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith eto.

4.4 Y Gronfa Sbarduno

Mae'r Gymdeithas bellach yn cyflwyno ysgoloriaeth ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn hytrach na gwobr ar ei diwedd hi i fyfyrwyr cwrs Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth. Dyfarnwyd yr ysgoloriaeth yn 2022 i Helen Lowcock James.

Yn achos y Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd (PCYDDS) parhawyd i ddyfarnu gwobrau ar ddiwedd y cwrs. Enillwyr gwobrau 2020–22 oedd Sioned Pugh, Ffion Parrington ac Amy Mason.



Oherwydd trafferthion Covid-19, eleni oedd y flwyddyn gyntaf i'r Gymdeithas fedru cynnig arholiadau ar lefel Aelodaeth Sylfaenol ers 2019, felly manteisiwyd ar y cyfle i wobrwyo ambell un yn ychwanegol â Gwobr Goffa Wil Petherbridge, a roddir i'r ymgeisydd mwyaf addawol wrth gyfieithu i'r Gymraeg ar lefel Aelodaeth Sylfaenol (gwobrwywyd tri yn ystod y flwyddyn, sef Morgan Owen, Jennifer Needs a Lois Roberts-Jones), ac â Gwobr Berwyn, a roddir i'r ymgeisydd mwyaf addawol wrth gyfieithu i'r Saesneg ar lefel Aelodaeth Sylfaenol (gwobrwywyd dau yn ystod y flwyddyn, sef Siôn Pennant Tomos ac Einir Lois Jones). Da iawn oedd gweld nifer yn haeddu eu gwobrwyo, a llongyfarchiadau mawr i bob un o'r pump.



5. Cynnal a meithrin cysylltiadau allweddol

Amcan strategol 3 yw cynnal a datblygu perthynas y Gymdeithas â gwahanol gyrff a sefydliadau, a meithrin partneriaethau allweddol. Bydd y rhain yn gyrff a sefydliadau y tu mewn a'r tu allan i'r byd cyfieithu, yng Nghymru a'r tu hwnt. Wrth wneud hyn, gallwn fod yn eiriol dros y Gymdeithas a'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu Cymraeg i/o'r Saesneg mewn mannau dylanwadol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth cyrff a sefydliadau o werth a mantais defnyddio'r Gymraeg.

5.1 O fewn y byd cyfieithu

Cynhaliwyd cyfarfod (rhithwir) â phenaethiaid Unedau Cyfieithu awdurdodau lleol ar 19 Hydref 2022. Roedd 14 yn bresennol ynddo yn cynrychioli 9 Cyngor Sir. Bu'n gyfarfod buddiol dros ben a chodwyd pwyntiau dilys ynddo ac roedd yn amlwg fod gan bawb yr un problemau. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar 4 thema: recriwtio, technoleg, cyfieithu ar y pryd a hyfforddiant. Parhawyd i gadw mewn cysylltiad â'r grŵp hwn. Mae un uned wedi defnyddio'r fforwm i ofyn am gyngor ynghylch strwythurau staffio unedau cyfieithu. Defnyddiwyd y fforwm i gasglu data ynghylch faint o waith cyfieithu a oedd yn cael ei wneud o fewn yr unedau hyn.

Parhaodd y Gymdeithas i gynnal ei pherthynas a'i chysylltiadau â chymdeithasau a chyrrff cyfieithu, yn eu plith Institute of Translators and Interpreters (a'r grŵp ITI Cymru/Wales), Chartered Institute of Linguists a'r National Register of Public Service Interpreters. Daw'r Gymdeithas i gysylltiad uniongyrchol â'r rhain ac eraill trwy ei haelodaeth o Professional Interpreters for Justice (PI4J), grŵp ymbarél a chanddo'r nod o gynrychioli buddiannau cyfieithwyr ar y pryd yn y sector cyhoeddus, yn arbennig yn y sector cyfiawnder. Roedd y Gymdeithas yn cael ei chynrychioli ar y Pwyllgor Llywio gan y Prif Weithredwr. Bydd y Prif Swyddog newydd yn ymgymryd â'r rôl hyn o Fehefin 2023 ymlaen.

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Fédération Internationale des Traducteurs / International Federation of Translators, neu FIT, sef y gymdeithas ryngwladol sy'n cynrychioli buddiannau cymdeithasau cyfieithu proffesiynol.

5.2 Sefydliadau Addysg Uwch

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Gonsortiw Astudiaethau Cyfieithu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bwriad y Consortiw yw cadw trosolwg strategol ar y ddarpariaeth academaidd a gynigir gan gynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth a'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Cyfieithu ar y Pryd gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'r Consortiw yn cynnig arweiniad a chynghor er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth academaidd yn adlewyrchu anghenion hyfforddi'r proffesiwn/diwydiant cyfieithu, yn ogystal â'r safon a'r rhychwant sgiliau angenrheidiol sydd yn ddisgwyliedig gan gyfieithydd proffesiynol ar ddechrau ei yrfa. Mae'r Gymdeithas yn cael ei gynrychioli gan y Prif Swyddog.

Cyfrannodd y Gymdeithas sesiwn dysgu i'r Cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol Prifysgol Aberystwyth.

5.3 Cyrff a sefydliadau yng Nghymru

Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r Gymdeithas yn aelod o Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n cynnwys sefydliadau sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r grŵp yn cael ei gydylynu a'i weinyddu gan Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Y Prif Swyddog sy'n cynrychioli'r Gymdeithas.

Comisiynydd y Gymraeg

Parhaodd y Gymdeithas i weithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar faterion yn ymwneud â chyfieithu.

Gwasanaeth y Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Fawrhydi (GLITEF)

Mae'r bartneriaeth rhwng y Gymdeithas ag Uned Iaith Gymraeg GLITEF a'r farnwriaeth yng Nghymru yn un bwysig ac allweddol yn y gwaith o sicrhau trefn a safon broffesiynol wrth ddarparu gwasanaeth CAP



Cymraeg i/o'r Saesneg yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Bu'r Prif Weithredwr a Hywel Hughes, Pennaeth Uned y Gymraeg GLITEF, mewn cyswllt rheolaidd ynghylch materion yn ymwneud â CAP yn y llysoedd.

Cyfarfu'r Gweithgor Cyfieithu ar y Pryd mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd unwaith. Mae hwn yn weithgor ar y cyd rhwng GLITEF, y farnwriaeth a'r Gymdeithas, dan gadeiryddiaeth Barnwr Cyswllt y Gymraeg ac yn atebol i Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor. Ei fwriad yw adolygu'r holl drefniadau ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn parhau o'r safon uchaf. Mae 5 o Aelodau CAP y Gymdeithas yn aelodau ohono.

Roedd y Gymdeithas hefyd yn aelod o'r Language Services External Stakeholder Forum a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder/GLITEF. Ei fwriad yw 'to facilitate a regular and constructive engagement between HMCTS and organisations representing the interpreter community'.

Yr Her Gyfieithu

Mae'r Gymdeithas yn un o bartneriaid yr Her Gyfieithu i'r Gymraeg. Penderfynodd y trefnwyr i beidio â chynnal cystadleuaeth yn 2022.

Eisteddfod yr Urdd

Ar y cyd â'r Urdd, trefnwyd y gystadleuaeth cyfieithu i'r oedran 19–25 yn Eisteddfod yr Urdd 2022. Yr enillydd oedd Lois Wiliam (Aelod Unigol Tu allan i Gymru). Bydd y bartneriaeth rhwng Eisteddfod yr Urdd a'r Gymdeithas i gynnal y gystadleuaeth hon yn parhau tan 2024.

5.4 Ymatebion i ymgynghoriadau ac ati

Ymgynghoriad GLITEF ar ei Gynllun Iaith Gymraeg 2022–25:

Yn ein hymateb, ail bwysleisiwyd pwysigrwydd defnyddio aelodau o'r Gymdeithas i ddiwallu anghenion cyfieithu ychwanegol GLITEF; croesawyd y bwriad i sicrhau bod holl staff GLITEF yn deall y broses ar gyfer ymdrin ag achos lle defnyddir y Gymraeg; cefnogwyd y pwynt 'nid yw cyfieithu ar y pryd yn y Gymraeg yn golygu bod disgwyliad i'r cyfieithydd ddehongli ystyr y gyfraith fel a gyflwynwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfieithu ar y pryd yn golygu cyfieithu yr hyn a ddywedir mewn llys/tribiwnlys agored naill ai o'r Gymraeg i'r Saesneg neu i'r gwrthwyneb'; a chroesawyd y bwriad i wella'r offer CAP yn Llys y Goron Abertawe.

Adolygiad o wasanaethau cyfieithu Prifysgol Abertawe:

Cafodd y Prif Weithredwr ei gyfwrdd gan Heledd Bebb o gwmi ymchwil OB3 oedd yn cynnal yr adolygiad hwn yn dilyn ad-drefnu mewnol a symud yr Uned Gyfieithu i fod yn rhan o Academi Hywel Teifi.



6. Codi proffil a hyrwyddo gwerthoedd proffesiynol

Amcan strategol 4 yw codi proffil y Gymdeithas, hybu ei gwerthoedd proffesiynol, hyrwyddo gwasanaethau proffesiynol ei haelodau, a marchnata gweithgareddau a gwasanaethau'r Gymdeithas.

Bwriad y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu, wrth gefnogi a hyrwyddo nod ac amcanion y Gymdeithas, oedd creu perthynas gadarnhaol â'r gwahanol garfanau y mae angen i'r Gymdeithas ymgysylltu â hwy, sef ei haelodau, darpar aelodau, cyfieithwyr eraill, sefydliadau a chyrrff, comisiynwyr cyfieithu, ac eraill y tu allan i'r byd cyfieithu gan gynnwys gwleidyddion. Roedd y gweithgareddau hyn hefyd yn fodd o dynnu sylw at swyddogaeth y Gymdeithas fel y corff proffesiynol i gyfieithwyr Cymraeg i/o'r Saesneg, ac i sicrhau proffil uchel i bob agwedd ar waith y Gymdeithas.

Targedwyd y sefydliadau ac unigolion oedd ar restr ohebu gyffredinol y Gymdeithas gyda gwybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas yn ôl y galw.

Mae gwefan y Gymdeithas - www.cyfieithwyr.cymru/cy/ - yn rhan o weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r Gymdeithas. Dyma'r unig le i chwilio am wybodaeth am y byd cyfieithu Cymraeg. Mae holl destun y wefan ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) v 3.0.

Hefyd, er mwyn tynnu sylw at weithgareddau'r Gymdeithas, defnyddiwyd cyfrif 'Twitter' y Gymdeithas - [@cyfieithwyr](https://twitter.com/cyfieithwyr) - a gosodwyd hysbysebion yn y wasg.

